Cyllid & Tollau EM

Atodiad Rhodd Cymorth ar gyfer rhoddion a wneir o 6 Ebrill 2008

Nodwch eich cyfeirnod CThEM ar gyfer Elusennau sy'n dechrau â X neu C *(ni allwn eich talu heb y cyfeirnod hwn)*

Nodiadau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y nodiadau ac yna'n llenwi pob adran ar y ffurflen.

Yr atodiad hwn yw'r man cychwyn ar gyfer unrhyw gais a wnewch. Defnyddiwch y ffurflen hon i roi manylion ynghylch rhoddion a wnaed i chi gan unigolion o dan Rhodd Cymorth **o 6 Ebrill 2008.**

Defnyddiwch yr wybodaeth hon i weithio allan yr ad-daliad treth cywir ar y ffurflen gais R68 Claim (Cymraeg). Byddwn, hefyd, yn ei defnyddio i gyfrifo unrhyw log sy'n rhaid i ni ei dalu i chi ar eich cais.

Os bydd angen mwy o le arnoch yna llungopïwch dudalen 2 o'r ffurflen hon cyn i chi ddechrau. Gallwch, os dymunwch, ddefnyddio eich taenlen eich hun cyn belled â'i bod yn cynnwys yr un wybodaeth ag yr ydym yn gofyn amdani yma. Fel arall, gallwch lwytho copi i lawr o'n gwefan yn **www.hmrc.gov.uk/charities**

Gwybodaeth bwysig

Mae angen i chi gwblhau'r atodlen hon i roi manylion o'r rhoddion a wnaed i chi mewn cyfnod cyfrifo penodol. Bydd y dyddiad hynny yn dibynnu p'un a gewch eich trin fel Ymddiriedolaeth neu Gwmni at ddibenion y cais hwn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa un sy'n gymwys i chi gan y bydd yn effeithio ar eich cais.

Bydd yr arweiniad canlynol yn eich helpu i benderfynu ond gofynnwch i swyddog elusennau os nad ydych yn sicr:

- **Caiff y rhan fwyaf ohonoch eich trin fel cwmni**. Mae hyn oherwydd i chi gael eich creu gan Gyfansoddiad, Memorandwm ag Erthyglau Cymdeithasu, Rheolau neu hyd yn oed Ddeddf Seneddol. Er enghraifft, clybiau, cymdeithasau, grwpiau sgowtiaid, brownis a'r rhan fwyaf o fannau addoli.
- Mae pob Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol yn gwmni.
- Byddwch yn Ymddiriedolaeth dim ond os sefydlwyd yr elusen un ai gan Weithred Ymddiriedolaeth neu Ewyllys.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod yn ymddiriedolaeth oherwydd bod ymddiriedolwyr gan eich sefydliad.

Sut i weithio allan eich cyfnod cyfrifo

Cwmni

Eich cyfnod cyfrifo yw'r cyfnod hyd at y dyddiad rydych yn paratoi'ch cyfrifon ariannol blynyddol. Y dyddiadau mwyaf cyffredin yw 31 Rhagfyr a 31 Mawrth.

Ymddiriedolaeth

Rhaid i chi drin eich cyfnod cyfrifo fel 5 Ebrill hyd yn oed os ydych yn paratoi eich cyfrifon hyd at ddyddiad gwahanol.

Os yw'ch cais am fwy nag un cyfnod cyfrifo yna mae'n rhaid i chi gwblhau atodlen ar wahân ar gyfer pob un.

Newidiadau i gyfradd sylfaenol y Dreth Incwm

Newidiodd y gyfradd dreth sylfaenol o 22% i 20% ar 6 Ebrill 2008. Golyga hyn fod yr hyn rydych yn ei hawlio o dan Rhodd Cymorth yn llai. Bydd rhyddhad trosiannol yn ddyledus ar roddion a wneir i chi rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2011. Nid oes angen i chi wneud cais am hyn gan y byddwn yn ei dalu'n awtomatig.

Rhaid i chi restru dim ond y rhoddion a wnaed o 6 Ebrill 2008 ar yr atodiad hwn, fel y gallwn adnabod y taliadau a chyfrifo'r rhyddhad sy'n ddyledus.

Cael eich cais yn iawn

Nodwch y manylion canlynol a fydd yn ein helpu i weithio allan unrhyw log sy'n ddyledus i chi.

1. Ar gyfer pa gyfnod cyfrifo y mae'r rhoddion hyn yn cyfeirio ato? *(gweler y nodiadau)*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

2. Beth yw dyddiad y rhodd gynharaf a restrir ar yr atodlen hon? *(ni all hwn fod cyn 6 Ebrill 2008)*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

3. Beth yw dyddiad y rhodd ddiweddaraf a restrir ar yr atodlen hon? *(ni all hwn fod yn ddiweddarach na'r dyddiad y daw eich cyfnod cyfrifo i ben nac yn hwyrach na heddiw)*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

Rhestr wirio:

- Cymrwch gopi o'r atodlen hon ar gyfer eich cofnodion cyn ei hanfon atom.
- Peidiwch ag anfon y datganiadau Rhodd Cymorth gyda'r cais hwn. Cadwch hwy ar gyfer eich cofnodion eich hun.
- Os ydych angen help neu fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth ar **0845 302 02 03** (Gwasanaeth Saesneg).

I ble dylid anfon y ffurflen hon

Rhaid i chi anfon yr atodlen hon, neu eich taenlen eich hun, atom gyda'ch ffurflen R68 Claim (Cymraeg).

Os defnyddiwch dudalennau ychwanegol, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r cyfeirnod ac yn dwyn y cyfansymiau ymlaen.

Rhoddion a wnaed o 6 Ebrill 2008

Cyfeirnod

	Enw'r rhoddwr	Dyddiad y taliad (neu'r diwethaf mewn cyfres)	Cyfanswm y rhodd(ion)
	Swm a ddygwyd ymlaen (os rhywfaint)		£ .
1		/ /	£ .
2		/ /	£ .
3		/ /	£ .
4		/ /	£ .
		/ /	£ .
6		/ /	£ .
7		/ /	£ .
8		/ /	£ .
9		/ /	£ .
10		/ /	£ .
11		/ /	£ .
12		/ /	£ .
13		/ /	£ .
14		/ /	£ .
		/ /	£ .
16		/ /	£ .
17		/ /	£ .
18		/ /	£ .
19		/ /	£ .
		/ /	£ .
21		/ /	£ .
22		/ /	£ .
23		/ /	£ .
24		/ /	£ .
		/ /	£ .
26		/ /	£ .
27		/ /	£ .
28		/ /	£ .
29		/ /	£ .
		/ /	£ .
31		/ /	£ .

Cyfanswm rhoddion Rhodd Cymorth B £ .

*(neu **i'w ddwyn ymlaen** os defnyddir mwy nag un atodlen)*

Copïwch y cyfanswm i Flwch B ar dudalen 2 o'ch ffurflen R68 Claim (Cymraeg)

Rhoddion o 6 Ebrill 2008